# Cynllun Corfforaethol

2025 - 2030

Adra

# Cyflwyniad

Ein pwrpas fel cwmni yw darparu cartrefi a gwasanaethau o safon i'n cwsmeriaid. Dros y pum mlynedd nesaf, byddwn yn arwain y gwaith o greu cartrefi cynaliadwy o ansawdd uchel wrth feithrin lles cymunedol, ysgogi bod yn arloesol a hyrwyddo cynhwysiant ar draws gogledd Cymru.

Wrth i ni gychwyn ar bennod nesaf yn ein hanes o 2025 i 2030, byddwn yn parhau i ddarparu mwy o gartrefi o safon uchel ac effeithlon i'w rhedeg ar draws gogledd Cymru. Byddwn yn uchelgeisiol ac yn gweithio'n agos gyda phartneriaid i gefnogi cwsmeriaid i drawsnewid eu bywydau a gwella eu lles.

Mae cynaliadwyedd yn ganolog i'n Cynllun. Dros y pum mlynedd nesaf, byddwn yn gwneud mwy o ymdrech i leihau allyriadau carbon, gwella effeithlonrwydd ynni a defnyddio datrysiadau ynni adnewyddadwy.

Bydd ein hymrwymiad i gyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru 2023 (SATC) yn arwain ein hymdrech i ddarparu cartrefi o ansawdd ac sy'n ynni effeithlon ar gyfer ein holl gwsmeriaid.

Wrth i ni symud ymlaen, mae ein huchelgais o adeiladu mwy o dai yn ddi-wyro. Rydym wedi ymrwymo i ateb/datrys anghenion tai ein cymunedau drwy ddarparu tai cynaliadwy ac o safon uchel sy'n gwella lles ein cwsmeriaid.

Rydym eisiau ehangu a chryfhau ein gwaith gyda phartneriaid fel yr awdurdodau lleol, cyrff cyhoeddus eraill, sefydliadau'r trydydd sector a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig - mae'r rhain i gyd yn darparu gwasanaethau allweddol i'n cwsmeriaid. Drwy gryfhau'r partneriaethau hyn, ein hamcan yw gwneud gwasanaethau yn fwy hygyrch gan fynd i'r afael ag anghenion amrywiol ein cymunedau mewn ffordd sy'n fwy effeithiol. Byddwn yn gwneud mwy o ymdrech i leihau digartrefedd a lleihau rhestrau aros am dai cymdeithasol gan sicrhau bod gan bawb fynediad at y tai maen nhw angen.

Yn y Cynllun Corfforaethol yma, rydym yn amlinellu ein blaenoriaethau strategol, prif fentrau ac amcanion mesuradwy a fydd yn arwain ein gwaith dros y pum mlynedd nesaf. Gyda'n gilydd, gyda chefnogaeth ein cwsmeriaid, partneriaid a rhanddeiliaid, rydym yn hyderus yn ein gallu i greu cymunedau sy'n ffynnu ac sy'n gynaliadwy gan gynnig gwell ansawdd bywyd i bawb.

**Hywel Eifion Jones**
Cadeirydd Bwrdd Adra



## Ein taith

Ers 2010, rydym wedi sefydlu ein hunain fel darparwr tai arweiniol yng Nghymru lle mae pobl yn ymddiried ynom. Ein prif bwrpas yw darparu cartrefi cymdeithasol a chartrefi fforddiadwy a gwasanaethau sy'n fforddiadwy i'r rhai sydd mewn angen.

Dros y 10 mlynedd diwethaf, rydym wedi cynyddu nifer y cartrefi a ddarparwn yn sylweddol ac erbyn blwyddyn olaf ein Cynllun Corfforaethol blaenorol wedi dathlu carreg filltir cwblhau ein 1,000fed cartref newydd. Bellach, rydym yn darparu cartref diogel a chlyd i dros 18,000 o bobl mewn mwy na 7,400 o eiddo yng ngogledd Cymru.

Mae rheoli a chynnal a chadw cynifer o gartrefi a sicrhau bod ein gwasanaethau yn gyson yn ateb gofynion newidiol ein cwsmeriaid yn gofyn am dîm ymroddgar a galluog o bobl. Rydym yn falch o fod yn cyflogi dros 400 o staff - eu gwaith caled a'u hymroddiad sy'n gyrru ein llwyddiant.

## Ein Gwerthoedd

Mae ein gwerthoedd yn siapio popeth a wnawn. Maent yn dangos ein hymrwymiad i wneud ein gorau, bod yn onest, a gofalu am ein cwsmeriaid a'n cymunedau. Mae'r gwerthoedd hyn yn ein helpu i ddarparu gwasanaethau o'r radd flaenaf a gwneud gwahaniaeth cadarnhaol bob dydd.

Rydym yn agored ac yn deg o ran sut rydym yn ymateb i gwsmeriaid a sut rydym yn gweithredu ein busnes.

Rydym yn agored ac yn gynhwysol i bawb, gan ymddwyn yn deg ac yn ddiduedd a pharchu urddas ac unigoliaeth pawb. Rydym yn agored i weithio mewn partneriaeth gydag eraill i yrru ein hamcanion a dyheadau.

Mae pobl yn gallu ymddiried a dibynnu arnom a byddwn yn ymatebol gan barchu a gofalu am ein cwsmeriaid. Rydym yn sicrhau'n barhaus ein bod yn darparu gwerth am arian o'n gwasanaethau ac yn eu teilwra i ymateb i anghenion ein cwsmeriaid sydd wrth galon popeth a wnawn.

Rydym yn uchelgeisiol wrth fynd i'r afael ag anghydraddoldeb, gyrru ein rhaglen adeiladu o'r newydd a chreu cyfleoedd i'n cwsmeriaid. Rydym yn croesawu creadigrwydd a newid wrth chwilio am ffyrdd gwahanol a newydd o wneud pethau i arwain y ffordd. Rydym yn ceisio gwella beth rydym yn ei wneud yn barhaus, a sut rydym yn ei wneud, ac rydym eisiau cryfhau ein safle fel un o'r prif ddarparwyr tai.



# Pedwar Prif Egwyddor

Caiff ein cenhadaeth a'n gwerthoedd eu cefnogi gan sawl egwyddor allweddol sy'n arwain ein gwaith ac yn sicrhau ein bod yn cyflawni'r canlyniadau gorau posib ar gyfer ein cwsmeriaid a'n cymunedau. Mae'r egwyddorion hyn wrth galon popeth yr ydym yn ei wneud:

## Boddhad Cwsmer

Ein cwsmeriaid yw ein prif flaenoriaeth. Rydym yn canolbwyntio ar ddeall eu hanghenion a gwella ein gwasanaethau yn seiliedig ar eu hadborth. Ein nod yw creu profiadau cadarnhaol ac adeiladu perthynas gref gyda'n cwsmeriaid.

## Gwerth am Arian

Rydym ni'n sicrhau bod pob ceiniog rydym yn ei wario o fudd i'n cwsmeriaid. Rydym yn rheoli ein hadnoddau'n ofalus i ddarparu gwasanaethau a chartrefi o'r ansawdd gorau am y gwerth gorau. Ein nod yw creu buddion parhaol i bawb rydym yn eu gwasanaethu.

## Gweithio mewn Partneriaeth

Mae gweithio gydag eraill yn allweddol i'n llwyddiant. Rydym yn meithrin partneriaethau cryf ag awdurdodau lleol, grwpiau cymunedol, ysgolion, busnesau, a mwy. Drwy weithio gyda'n gilydd, gallwn greu datrysiadau gwell i bawb. Gyda'n gilydd, gallwn gyflawni llawer mwy nag y gallem ar ein pen ein hunain.

## Yr Iaith Gymraeg

Rydym yn cefnogi ac yn hyrwyddo'r Gymraeg ym mhopeth a wnawn. Fel sefydliad dwyieithog, rydym yn darparu gwasanaethau yn y Gymraeg a'r Saesneg er mwyn sicrhau bod gan bawb fynediad cyfartal. Rydym yn annog defnydd o'r Gymraeg o fewn ein cymunedau ac ymhlith ein staff, gan ddathlu ein diwylliant.



# Ein Blaenoriaethau

## Beth fyddwn yn gyflawni erbyn 2030

Mae'r cynllun hwn yn nodi'r hyn yr ydym eisiau ei gyflawni erbyn Mawrth 2030. Mae'n anodd gweld neu ragweld y dyfodol. Fodd bynnag, trwy fod yn driw i'n gwerthoedd o fod yn **Uchelgeisiol**, **Dibynadwy**, **Agored a Theg**, byddwn mewn sefyllfa dda i gwrdd â'r heriau sydd o'n blaenau a sicrhau cynaliadwyedd y cwmni a darparu'r gefnogaeth sydd ei angen ar ein cwsmeriaid i'w galluogi i fyw bywyd sydd llawn a gwerth chweil.


### Dros y pum mlynedd nesaf rydym am ganolbwyntio ar bedwar maes blaenoriaeth:

- **Gwella ein cartrefi:** Rydym yn buddsoddi yn ein cartrefi i'w gwneud yn fwy diogel ac yn well. Erbyn 2030, byddwn yn anelu at wneud ein holl gartrefi yn ynni-effeithlon (EPC C – SAP 69). Mae hyn yn golygu gwell insiwleiddio, ffynonellau ynni adnewyddadwy, a thechnoleg fodern i gadw cartrefi'n gyffyrddus ac effeithlon.
- **Gwneud gwahaniaeth cadarnhaol:** Rydyn ni yma i wella bywydau ein cwsmeriaid a'n cymunedau. Byddwn yn mynd i'r afael â materion fel tlodi, problemau iechyd meddwl, ac unigrwydd drwy wrando ar ein cwsmeriaid a gweithio gydag awdurdodau lleol a sefydliadau i ddiwallu anghenion amrywiol. Byddwn yn cefnogi addysg, hyfforddiant a chyfleoedd gwaith i helpu pobl i gyrraedd eu llawn botensial. Drwy weithio gyda phartneriaid lleol, byddwn yn creu llwybrau ar gyfer twf personol a phroffesiynol, gan helpu pawb i ffynnu.
- **Creu mwy o gartrefi:** Rydym yn gwybod bod yna angen am dai o safon. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu adeiladu 20,000 o gartrefi cymdeithasol carbon isel newydd erbyn 2026, ac rydym yn awyddus i helpu drwy adeiladu mwy o gartrefi cymdeithasol a fforddiadwy.
- **Meithrin diwylliant 'un tîm':** Ein tîm yw ein cryfder. Byddwn yn buddsoddi yn ein staff, gan roi'r sgiliau a'r cymorth sydd eu hangen arnynt. Rydym yn annog creadigrwydd a bod yn arloesol ac yn defnyddio data i wneud penderfyniadau call, gwella ein gwasanaethau ac aros ar y blaen yn y sector tai.

Mae'r pedwar blaenoriaeth hyn yn perthyn i dri chategori gwahanol: **Cartrefi**; **Cwsmeriaid** a **Cwmni**.

# CARTREFI

Wrth graidd ein pwrpas y mae'r ymrwymiad i ddarparu cartrefi diogel, cynaliadwy a chyfforddus i'n cymunedau. Rydym yn deall bod cartref yn fwy na lle i fyw yn unig—mae'n sylfaen ar gyfer lles, diogelwch a thwf. Mae ein Cynllun yn canolbwyntio ar adeiladu cartrefi newydd, gwella rhai presennol, sicrhau ansawdd a diogelwch drwy gynnig gwasanaeth cynnal a chadw effeithiol ac effeithlon, a hyrwyddo cynaliadwyedd a lles cymunedol. Trwy'r gweithgareddau hyn, ein nod yw diwallu anghenion amrywiol ein trigolion a chreu cymunedau sy'n ffynnu ac yn wydn. Dyma sut rydym yn bwriadu cyflawni hyn:



## Ein Cynlluniau

### Adeiladu a Gwella Cartrefi

- **Cartrefi Newydd:** Byddwn yn anelu at **adeiladu 800** o gartrefi cymdeithasol a fforddiadwy newydd yng ngogledd Cymru erbyn 2030. Gall y cartrefi hyn addasu i anghenion hirdymor pobl a byddant yn gynaliadwy ac yn ynni-effeithlon, gan ddiwallu anghenion ein cymunedau.
- **Buddsoddi yn ein Cartrefi Presennol:** Byddwn yn buddsoddi o leiaf **£85 miliwn** i wella ansawdd ein cartrefi presennol, gan eu gwneud yn fwy ynni effeithlon a fforddiadwy i'w cynnal. Erbyn 2030, rydym yn anelu at gael pob cartref i gyrraedd EPC C, gyda nod hirdymor o gyrraedd EPC A.

### Sicrhau Ansawdd a Diogelwch

- **Cyrraedd Safonau Ansawdd Tai Cymru 2023:** Byddwn yn gweithio tuag at fodloni gofynion Safonau Ansawdd Tai Cymru 2023 ac yn creu cynllun clir i sicrhau bod pob cartref yn ddiogel, yn gynaliadwy ac o ansawdd uchel.
- **Cydymffurfiaeth Iechyd a Diogelwch:** Byddwn yn sicrhau bod ein cartrefi'n saff a diogel gyda'r holl ofynion cydymffurfio iechyd a diogelwch yn cael eu bodloni fel blaenoriaeth.
- **Cynnal a Chadw:** Byddwn yn darparu atgyweiriadau cyflym ac effeithlon i gadw cartrefi'n ddiogel ac yn gyfforddus.

### Hyrwyddo Cynaliadwyedd a Lles Cymunedol

- **Datgarboneiddio:** Byddwn yn gweithio tuag at wneud ein cartrefi'n ecogyfeillgar a bodloni'r safonau ansawdd tai diweddaraf yng Nghymru.
- **Arferion Cynaliadwy:** Lle bo'n bosib, byddwn yn defnyddio arferion cynaliadwy mewn adeiladau newydd ac eiddo presennol, gan gynnwys lleihau gwastraff, cadwraeth dŵr, a defnyddio cadwyni cyflenwi lleol.
- **Addysgu Cwsmeriaid:** Byddwn yn addysgu cwsmeriaid am fyw'n gynaliadwy i hyrwyddo cyfrifoldeb amgylcheddol.



# CWSMERIAID

Mae cwsmeriaid wrth galon popeth a wnawn. Rydym wedi ymrwymo i'w grymuso a'u cefnogi, gan sicrhau bod ganddynt yr adnoddau, y cyfleoedd, a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt i ffynnu. Mae ein Cynllun yn canolbwyntio ar gefnogi unigolion, helpu cymunedau i ffynnu, a darparu gwasanaethau rhagorol. Ein nod yw adeiladu cymunedau cryfach, mwy gwydn lle gall pawb gyrraedd eu llawn botensial. Dyma sut rydym yn bwriadu cyflawni hyn:



## Ein Cynlluniau

### Cefnogi Pobl

- **Sgiliau Gwaith:** Byddwn yn darparu cyfleoedd i **o leiaf 700 o bobl** i ddatblygu sgiliau gwaith trwy gynnig hyfforddiant, prentisiaethau, ymgyrchoedd hybu gyrfa a chyflwyno pobl i fyd gwaith.
- **Iechyd a Lles:** Byddwn yn cryfhau partneriaethau presennol ac yn datblygu cydweithrediadau newydd i gefnogi rhaglenni sy'n hybu iechyd a lles cadarnhaol.
- **Cynyddu Incwm ac Ymdopi gyda Chostau Cartref:** Byddwn yn cefnogi cwsmeriaid i reoli costau eu cartrefi ac i gael mynediad at gyngor ariannol a dyled, yn ogystal a chael mynediad at gyngor a fudd-daliadau lles.
- **Tenantiaethau a Chartrefi Cynaliadwy:** Byddwn yn darparu'r cymorth priodol i'n cwsmeriaid i sicrhau a chynnal eu cartrefi a'u tenantiaethau ac anelu i ddarparu **o leiaf 15,000 pecyn cymorth** i'r rhai hynny mewn angen.
- **Creu Tai Cyfforddus:** Rydym wedi ymrwymo i helpu ein cwsmeriaid i wneud y gorau o'u cartrefi. Ein nod yw sicrhau bod cwsmeriaid yn teimlo'n hyderus ac wedi'u grymuso i gynnal eu cartrefi'n gyfrifol, gan greu amgylcheddau byw cyfforddus a chynaliadwy. Drwy gydweithio â'n gwasanaethau a'n contractwyr, byddwn yn darparu'r wybodaeth a'r cymorth sydd eu hangen i ddefnyddio'r technolegau newydd rydym yn eu gosod yn effeithiol.

### Cefnogi Cymunedau i Ffynnu

- **Cydlyniant Cymunedol:** Byddwn yn gweithredu mentrau ymgysylltu cymunedol sy'n meithrin balchder ac yn annog cyfranogiad a chydlyniant o fewn ein cymunedau.
- **Effaith Cymdeithasol ac Amgylcheddol:** Byddwn yn parhau i nodi cyfleoedd i wneud y mwyaf o'n heffaith gymdeithasol a rheoli ein heffaith amgylcheddol o fewn ein cymunedau.
- **Canolbwyntio ar yr Ardal:** Byddwn yn alinio ac yn siapio ein gwasanaethau a'n mentrau; a gwneud y defnydd gorau o'n hasedau a'n hadnoddau i gwrdd â heriau lleol, cyfleoedd, anghenion tai a blaenoriaethau cymunedol ar y cyd â'n partneriaid.

### Darparu Gwasanaethau Ardderchog

- **Llais y Cwsmer:** Byddwn yn creu cyfleoedd i sicrhau bod lleisiau ein cwsmeriaid yn cael eu clywed trwy eu cynnwys, rhannu syniadau, lledaenu gwybodaeth a chael mewnbwn i'r penderfyniadau, polisïau a strategaethau sy'n effeithio ar eu bywydau ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.
- **Adborth gan Gwsmeriaid:** Byddwn yn parhau i gasglu adborth a gwrando ar ein cwsmeriaid i ddeall eu hanghenion a'u dewisiadau yn well.
- **Darparu Gwasanaeth:** Byddwn yn dod i wybod am newidiadau ac yn eu gweithredu i ddarparu gwasanaethau i ddiwallu anghenion ein cwsmeriaid orau a sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar y cwsmer gyda'r nod o gyflawni boddhad cwsmeriaid o **90%** gyda'n gwasanaethau rheng flaen.

# CWMNI

Mae ein cwmni wedi'i adeiladu ar sylfaen ariannol gref, llywodraethu cadarn, ac ymrwymiad i arloesi. Credwn fod cynnal sefydliad cadarn a chynaliadwy yn hanfodol i gyflawni ein cenhadaeth a darparu gwasanaethau o'r ansawdd uchaf i'n cwsmeriaid. Mae ein Cynllun yn canolbwyntio ar sicrhau gwytnwch ariannol, meithrin arweinyddiaeth gref, buddsoddi yn ein staff, a defnyddio data i ysgogi gwelliant parhaus. Dyma sut rydym yn bwriadu cyflawni hyn:





## Ein Cynlluniau

### Cryfder Ariannol a Chynaliadwyedd

- **Rheolaeth Ariannol Effeithlon:** Byddwn yn rheoli ein harian yn gall er mwyn sicrhau sefydlogrwydd hirdymor a bodloni ein holl rwymedigaethau ariannol.
- **Buddsoddiadau Strategol:** Byddwn yn gwneud penderfyniadau ariannol call i gefnogi ein twf, gwella ein gwasanaethau ac ehangu ein gweledigaeth amgylcheddol.
- **Arian grant:** Byddwn yn mynd ati i geisio a defnyddio cyfleoedd cyllid grant i gefnogi ein prosiectau a'n mentrau.

### Llywodraethu Cryf, Arweinyddiaeth a Datblygu Staff

- **Rhagori yn y maes Llywodraethu:** Byddwn yn cynnal safonau uchel o dryloywder ac atebolrwydd ym mhopeth a wnawn.
- **Datblygiad Proffesiynol:** Byddwn yn darparu rhaglenni hyfforddiant a datblygiad ar gyfer pob lefel o fewn y cwmni, yn cefnogi'n staff i ddysgu sgiliau newydd, symud eu gyrfa ymlaen ac arwain newid positif. Ein nod yw cael **dros 90%** o'n staff yn ein gweld fel lle da i weithio.
- **Lles staff:** Byddwn yn ceisio darparu amgylchedd gwaith diogel i'n staff a chynnig cynlluniau lles i gefnogi staff i gynnal eu hiechyd corfforol a meddyliol.

### Arloesedd a Defnyddio Data

- **Diwylliant Arloesol:** Byddwn yn annog creadigrwydd ac yn cefnogi staff i edrych ar ddatrysiadau.
- **Cefnogi'r Economi Leol:** Byddwn yn blaenoriaethu prynu gan gyflenwyr lleol, creu swyddi, a buddsoddi yn ein gweithlu lleol.
- **Defnyddio Data:** Byddwn yn dadansoddi data i'w ddefnyddio i wneud penderfyniadau yn seiliedig ar wybodaeth, gwella ein gwasanaethau, a chynyddu effeithlonrwydd.
- **Cofleidio technoleg:** Byddwn yn defnyddio technolegau newydd, yn cynnwys Deallusrwydd Artiffisial (DA), i gryfhau'r ffordd rydym yn gweithio, gwella effeithiolrwydd a gwella profiad y cwsmer. Byddwn yn parhau i adolygu ac uwchraddio ein systemau mewnol lle bo angen, gan gyfuno datrysiadau DA er mwyn cynyddu effeithiolrwydd.

# Ein taith 2025 - 2030

